

# Brîff Brexit



Plaid Cymru | Party of Wales



Dyma'r pedwerydd rhifyn o'r Briffiad Brexit; gobeithio y gwnewch ei fwynhau. Mae llawer mwy o wybodaeth am yr holl faterion hyn yn [Adran Brexit ein gwefan](#).

Mae tri rhan i'r Briffiad:

- 1) Newyddion o Brifddinas yr Ymerodraeth (San Steffan)
- 2) Crynhoi yn y Senedd (Cynulliad)
- 3) Newyddion o Senedd Ewrop

Os oes gennych unrhyw adborth, rhowch wybod i ni trwy ebostio [post@plaid.cymru](mailto:post@plaid.cymru)

## Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Y penwythnos diwethaf, honnodd Andrew RT Davies, arweinydd y Ceidwadwyr yng Nghymru, y dylai pwerau dros amaethyddiaeth gael eu dychwelyd i San Steffan pan fydd y DG yn gadael yr UE am 'nad yw ffermwyr yn ymddired' yn Llywodraeth Cymru. Mae polisi amaethyddol wedi ei ddatganoli ar hyn o bryd, a bydd Llywodraeth Cymru yn cael y grym i adolygu a gwella dros 200 darn o reoliadau'r UE sydd yn sylfaen i gyfraith amgylcheddol Cymru wedi Brexit.

Beirniadodd Simon Thomas AC, llefarydd Plaid Cymru ar faterion gwledig, sylwadau Andrew RT Davies, [gan ddweud mewn gwirionedd 'nad oes modd yn y byd ymddiried yn y Toriaid i amddiffyn y Gymru wledig'](#). Dywedodd, 'mae Llywodraeth y DG wedi methu'n llwyr â chynnig unrhyw sicrwydd i ffermwyr y mae eu bywoliaeth mewn perygl. Gyda Llywodraeth San Steffan

yn cymryd yr agwedd hon, mae'n wirion ac yn anghyfrifol i arweinydd y Ceidwadwyr yng Nghymru honni y byddai'n well gweinyddu cymorthdaliadau ffermio o Lundain."

[Mae Steffan Lewis wedi dadlau](#) y bydd angen mwy o gydweithrediad rhwng Iwerddon a Chymru i'n helpu i ymdopi â'r cyd-destun wedi Brexit. Dylid sefydlu 'Cynghrair y Môr Celtaidd' rhwng y ddwy genedl, ac yn enwedig rhwng rhanbarthau gorllewinol Cymru a rhanbarthau dwyreiniol Iwerddon. Tynnodd Steffan Lewis sylw at esiampl Norwy a Sweden lle mae cydweithredu wedi golygu fod prosiectau ar y cyd wedi sicrhau cefnogaeth ariannol gan yr UE er nad yw Norwy yn aelod-wladwriaeth. Dywedodd, 'rhaid i Gymru edrych tuag allan a mentro pan ddaw'n fater o'n cysylltiadau yn y dyfodol gyda gwledydd eraill a ffyniant ein cymunedau.'

Yn y cyfamser, mae UKIP yn y Cynulliad, yn eironig, [wedi galw ar Lywodraeth Iwerddon i dalu am welliannau i'r M4 yng Nghymru](#) am y gallent gyrchu arian yr UE i dalu'r gost. Cafodd David Rowlands, AC UKIP dros y De Ddwyrain, ei heclo ar lawr y Senedd pan awgrymodd y gallai Iwerddon gyrchu cyllid yr UE ar ran Cymru. Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weinidog i ddechrau fod UKIP wedi arwain yr ymgyrch i'r DG adael yr UE, felly bod ceisio dod o hyd i ddrws cefn at arian yr UE trwy Iwerddon yn hurt. Dadleuodd wedyn y gallai gofyn i lywodraethau gyllido prosiectau seilwaith mewn gwledydd eraill am eu bod yn cael eu defnyddio gan eu dinasyddion arwain at ofyn i Gymru dalu am yr M4 i'r dwyrain o Bont Hafren, neu i Loegr dalu am ffyrdd o Calais. Er y byddai Plaid Cymru yn dadlau dros gydweithredu eangfrydig gyda'n cymdogion i helpu i liniaru effeithiau Brexit, ymddengys bod UKIP o'r farn mai mynnu tâl am brosiectau seilwaith ganddynt yw'r ffordd i gynnal polisi tramor mewn byd wedi Brexit. Mae'n bechod mai yn awr yn unig y mae UKIP yn sylweddoli manteision cyllid yr UE i Gymru ar ôl y refferendwm.

## **Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd**

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Ers y briffiad diwethaf, cyflwynodd Llywodraeth y DG Ddatganiad yr Hydref, sef cyfle Llywodraeth y DG i roi'r newyddion diweddaraf i Dŷ'r Cyffredin a'r cyhoedd am gyflwr economi'r DG.

Yr oedd y datganiad yn ddyfarniad damniol ar yr hyn yr arferai San Steffan ei alw yn 'gynllun economaidd tymor hir' ac yn taflu goleuni ar wir effaith Brexit ar fywoliaethau pobl, a chyflogau pobl yn benodol.

Cafwyd adroddiadau helaeth cyn Datganiad yr Hydref y bydd y Canghellor yn wynebu twll o £100 biliwn yn y cyllid cyhoeddus o ganlyniad i Brexit a'i effeithiau ar dwf economaidd. Ymatebodd ein llefarydd ar Brexit, [Jonathan Edwards i'r adroddiadau hyn](#) cyn y datganiad, gan alw am sicrwydd y byddai'r DG yn cadw at ei addewid ac yn gwneud iawn am unrhyw gyllid fyddai'n cael ei golli i Gymru trwy adael yr UE.

Cafodd unrhyw honiadau gan y Brexitwyr fod y twll o £100 biliwn yn ddim ond codi bwganod eu tawelu'n ddigon buan pan gyflwynodd y Canghellor ei ddatganiad ac y datgelodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), sydd yn annibynnol, fod y twll yn £120 biliwn, gan gyfeirio at dwf economaidd arafach na'r disgwyl, o ganlyniad i ansicrwydd am ein haelodaeth o'r farchnad sengl, fel rheswm.

[Ymatebodd Jonathan ar unwaith](#), gan wneud yr achos dros i'r llywodraeth ymrwymo i gynnal ein haelodaeth o'r farchnad sengl wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn creu sicrwydd i'n buddsoddwyr.

Unwaith i'n tîm San Steffan, ynghyd ag ymchwilwyr annibynnol megis y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) edrych drwy'r ffigyrau, daeth yn glir y bydd yr effaith ar fywydau pobl yn sylweddol.

Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yw'r effaith ar gyflogau pobl dros y pum mlynedd nesaf. Datgelodd yr IFS y bydd cyflogau yn awr yn is yn 2021 nac yr oeddent yn ystod y chwalfa ariannol yn 2008, gan ei alw yn gyfnod o ddirywiad mewn cyflogau nas gwelwyd ei fath ers 70 mlynedd.

Ymosododd Jonathan ar yr hyn a alwodd yn [ddegawd dirywiad San Steffan](#) y penwythnos diwethaf.

Yr wythnos hon, cawsom y newyddion trist iawn fod cwmni o China, oedd [eisoes wedi dod i gytundeb ar fenter ar y cyd gyda chwmni o Gymru](#) gyda chanolfan yn y Betws yn Nyffryn Amman yn etholaeth Jonathan, bellach wedi penderfynu tynnu'n ôl, o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch aelodaeth Cymru o'r farchnad sengl.

Yr oedd y cwmni hyd yn oed wedi newid ei enw i ymgorffori enw'r cwmni o China ac ar fin creu 40 swydd mewn ardal sydd yn crefu am waith. Rhoes y [BBC sylw i'r stori](#) pan gododd Jonathan y mater mewn Cwestiynau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ddydd Mercher.

## **O Senedd Ewrop**

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



Cyfarfu prif drafodwr Comisiwn yr UE gyda'r DG, Michel Barnier, yr wythnos hon gydag arweinyddion yr holl grwpiau gwleidyddol yn Senedd Ewrop, gan gynnwys Llywydd EFA Josep-Maria Terricabras. Pwysleisiodd eto y bydd y trafodaethau yn cael eu cynnal heb fod yn ymosodol a heb unrhyw ddymuniad i ddial. Dyma'r agwedd gyffredinol ym Mrwsel – felly peidiwch â chredu'r wasg dabloid sydd yn dal i gynnwyl eu hymgyrch ymosodol wrth-Ewropeaidd ac yn honni drwgdeimlad. Nid yw hyn yn wir, er y bydd yr UE yn amlwg yn diogelu hawliau'r 27.

Bydd y trafodaethau yn ymdrin â hawliau dinasyddion a gweithwyr, ymrwymadau ariannol, ffiniau, cytundebau ariannol, ail-neilltuo asiantaethau'r UE a llawer mwy. Mae trefniadau trosiannol yn gynyddol debygol (gyda chymalau machlud). Dylid bod wedi dod i gytundeb erbyn Hydref 2018 – a rhagdybio yr aiff y broses yn ei blaen y flwyddyn nesaf.

- Yr wythnos hon, cynhaliwyd ail gyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Llywodraeth Cymru. Mae Jill yn aelod o'r pwyllgor ac o'r is-grŵp ar Gymru yn y Byd. Yr oedd y cyfarfod yn gadarnhaol a chynhyrchiol iawn.
- Cafodd Jill gyfarfod gyda Ffederasiwn y Busnesau Bychain i drafod eu pryderon am y trafodaethau gadael a'r tymor hwy.
- Bu hefyd mewn cyfarfod o'r grŵp rhyng-seneddol EEA - Y Swistir oedd yn trafod cydweithredu trawsffiniol a symud rhydd. Ar adeg pan fod Cymru yn ceisio adeiladu perthynas newydd gydag Ewrop, yr oedd hyn yn berthnasol iawn.
- Mae [llythyr yn y Times](#) yr wythnos hon gan archfarchnadoedd, busnesau bwyd a ffermwyr yn rhagweld y bydd bargaen ar adael yr UE fyddai'n cyfyngu ar hawliau gweithwyr mudol a mynediad at y farchnad sengl yn peryglu cyflenwadau bwyd yn y DG. Mae'r gadwyn gyflenwi bwyd yn dibynnu ar gyflogi gweithwyr o dramor, yn dymhorol a pharhaol. Hefyd, aiff 75% o allforion bwyd y DG i wledydd eraill yr UE. Cynhyrchu bwyd yw sector gweithgynhyrchu mwyaf y DG – mae'n fwy na'r sectorau modur ac awyrafod wedi eu cyfuno. Mewn llythyr i'r Prif Weinidog wedi ei gydlynnu gan undebau ffermwyr mae 75 sefydliad wedi datgan cefnogaeth ar gyfer

gweledigaeth bositif, blaengar ac uchelgeisiol ar gyfer y sector ar ôl Brexit. Ond maen nhw hefyd yn datgan fod sicrwydd bwyd, diogelwch bwyd a hylendid, stiwardiaeth cefn gwlad a bwyd fforddiadwy yn cael ei beryglu os yw Gweinidogion yn methu â darparu mynediad at lafur a'r farchnad sengl.